



The Planning Inspectorate  
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# **Canllaw ar gyfer Swyddogion Rhaglen**

Archwiliadau CDLI

**Awst 2015**

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad	3
2.	Priodweddau Swyddog Rhaglen Effeithiol	3
3.	Y Swyddog Rhaglen a'r Arolygydd	3
4.	Rôl y Swyddog Rhaglen	5
5.	Trefniadau swyddfa ar gyfer y Swyddog Rhaglen a'r Arolygydd	5
6.	Llyfrgell yr Archwiliad a gwefan yr Archwiliad	6
7.	Y gronfa ddata sylwadau	7
8.	Iaith a chyfieithu	8
9.	Y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad	8
10.	Lleoliad y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad / Gwrandawiadau	9
11.	Y Gwrandawiadau	9
12.	Paratoi rhaglen yr archwiliad	10
13.	Prosesu dogfennau	11
14.	Paratodau olaf ar gyfer Gwrandawiadau'r archwiliad	12
15.	Cau'r archwiliad / trosglwyddo	12
16.	Cychwyn arni	12
	Atodiad: Llythyrau enghreifftiol	14

## 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'n rhaid i bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a chadw'r cynllun hwn yn gyfredol. Cyn i CDLI 'newydd' gael ei fabwysiadu, mae'n rhaid iddo gael ei archwilio. Yn yr un modd, pan fydd awdurdod yn dymuno diwygio agweddau ar CDLI a fabwysiedir, mae'n rhaid archwilio'r diwygiadau arfaethedig i'r cynllun. Diben archwiliad yw ystyried a yw'r CDLI 'newydd' neu 'ddiwygiedig' yn gadarn ac wedi'i seilio ar sylfaen dystiolaeth gref a chredadwy. Nid yw'r term cadarn wedi'i ddiffinio yn Neddf 2004, ond gellir tybio ei fod yn golygu 'dangos doethineb barn' neu 'gellir ymddiried ynddo'.
- 1.2. Yn rhan o'r broses honno, bydd yr Arolygydd (a benodir gan Lywodraeth Cymru) yn ystyried sylwadau a gyflwynwyd ar gadernid y CDLI gan drigolion, datblygwyr ac eraill. Ar ddiwedd yr Archwiliad, bydd yr Arolygydd yn cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI). Gallai'r adroddiad gynnwys argymhellion rhwymol sy'n mynnu bod newidiadau'n cael eu gwneud i'r CDLI er mwyn sicrhau ei fod yn gadarn.
- 1.3. Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol ac arweiniad arall ar archwiliadau CDLI a'r cyd-destun ehangach wedi'i amlinellu'n bennaf yn:
  - Archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol: Canllaw Gweithdrefnol (Awst 2015)
  - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005
  - Polisi Cynllunio Cymru
  - Y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (Mehefin 2015)
- 1.4. Mae'r dogfennau hyn ar gael trwy dudalennau'r Arolygiaeth Gynllunio ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

## 2. Priodweddau Swyddog Rhaglen Effeithiol

- 2.1. Mae'r Swyddog Rhaglen yn gyfrifol am reoli trefniadau dydd i ddydd y broses archwilio cyn ac yn ystod y Gwrandawiadau sy'n rhan o'r archwiliad. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo'r Arolygydd i lunio'r rhaglen Gwrandawiadau, cofnodi'r holl ddogfennau a gyflwynwyd ac ymdrin â gohebiaeth ar ran yr Arolygydd.
- 2.2. Mae'r rhaid i Swyddog Rhaglen feddu ar sgiliau gweinyddol da, tact, amynedd, cadernid a hyder. Er mwyn cynorthwyo ACLlau i sicrhau Swyddog Rhaglen effeithiol, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cadw rhestr o Swyddogion Rhaglen annibynnol, profiadol a allai fod ar gael i weithio i ACLI. Caiff ACLI secondio rhywun yn fewnol i weithredu fel Swyddog Rhaglen. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cynnal cyrsiau rheolaidd i hyfforddi unigolion o'r fath, a gallai ACLlau ystyried gweithio ar y cyd ag awdurdodau cyfagos i hyfforddi staff y gellir eu rhannu rhyngddynt.
- 2.3. Y Swyddog Rhaglen yw'r cyswllt rhwng y cyfranogwyr, yr ACLI a'r Arolygydd. Mae'n rhaid dangos yn eglur bod y Swyddog Rhaglen yn gweithredu'n annibynnol ar yr ACLI. Mae'r Swyddog Rhaglen yn derbyn cyfarwyddiadau gan yr Arolygydd yn unig ac yn adrodd i'r Arolygydd yn unig.

## 3. Y Swyddog Rhaglen a'r Arolygydd

- 3.1. Prif rôl y Swyddog Rhaglen yw trefnu a gweinyddu archwiliad cost-effeithiol ac

effeithlon o dan gyfarwyddyd ac arweiniad yr Arolygydd. Mae'r Swyddog Rhaglen a'r Arolygydd yn gweithio fel tîm ac, os yw'n bosibl, dylent gyfarfod yn gynnar yn y broses archwilio. Yr Arolygydd fydd yn penderfynu sut i gynnal y gweithrediadau a sicrhau bod yr archwiliad yn cael ei gynnal yn unol â'r egwyddorion arweiniol, sef bod yn agored, yn deg ac yn ddiuedd ('Egwyddorion Franks').

- 3.2. Yn dibynnu ar faint a chymhlethdod yr archwiliad, gallai Arolygydd Cynorthwyol, Swyddog Gynllunio o'r Arolygiaeth Gynllunio a/neu gynghorwyr arbenigol gael eu cynnwys yn y tîm i gefnogi'r Arolygydd.
- 3.3. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr ACLI a'r Arolygiaeth Gynllunio yn mynnu bod gan yr ACLI Swyddog Rhaglen sydd wedi'i hyfforddi'n briodol yn y swydd ar ddyddiad adneuo'r CDLI. **Ni fydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn penodi Arolygydd hyd nes y bydd yr ACLI yn rhoi enw, cyfeiriad a rhif ffôn y Swyddog Rhaglen.**
- 3.4. Mae'n fuddiol penodi Swyddog Rhaglen ar yr adeg adneuo oherwydd y gall ef/hi reoli'r broses o gasglu sylwadau, ac mae hefyd yn rhoi cyfle i'r Swyddog Rhaglen sefydlu swyddfa ac ymgyswddo â'r gronfa ddata, y wefan a'r llyfrgell. Bydd penodi ar yr adeg hon hefyd yn galluogi'r Swyddog Rhaglen i roi gwybod i'r Arolygiaeth Gynllunio faint o sylwadau a dderbyniwyd. Bydd y wybodaeth hon yn helpu'r Arolygiaeth i asesu a fydd angen cymorth ar yr Arolygydd. Bydd hefyd yn cael ei defnyddio gan yr Arolygydd i bennu pryd y mae'n debygol y bydd y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad yn cael ei gynnal neu a fydd angen Cyfarfod Cyn Gwrandawriad.
- 3.5. Mae'n bosibl na fydd angen i Swyddog Rhaglen weithio'n amser llawn ar y cam adneuo; bydd llawer yn dibynnu ar nifer y sylwadau a phrofiad y Swyddog Rhaglen. Bydd pob archwiliad yn wahanol, ond er mwyn rhoi arweiniad; os yw wedi'i benodi erbyn y cam adneuo, dylai 1 diwrnod yr wythnos fod yn ddigonol, gan gynyddu i 2/3 diwrnod yr wythnos ar yr adeg cyflwyno. Wrth i'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad nesáu, mae'n debygol y bydd angen i Swyddog Rhaglen weithio 3/4 diwrnod, gan gynyddu i weithio'n amser llawn rywbryd ar ôl y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad ac yn sicr erbyn adeg datganiadau'r rhai a gyflwynodd sylwadau. Bydd angen i Swyddog Rhaglen weithio'n amser llawn yn ystod y Sesiynau Gwrandawriad. Mewn Archwiliadau mawr a/neu ar adegau prysur (trefnu'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad neu gyfnewid datganiadau), mae'n bosibl y bydd angen i'r Swyddog Rhaglen geisio cymorth gweinyddol gan yr ACLI.
- 3.6. Er y gallai fod yn bosibl i Swyddog Rhaglen weithio ar sawl archwiliad, er enghraifft pan fydd un yn dod i ben ar ôl y Gwrandawriadau ac un arall megis dechrau, mae profiad hyd yma yn awgrymu bod hyn yn debygol o fod yn ormodol o feichus lle mae archwiliadau ar yr un cam i bob pwrpas. Hefyd, dylid cofio bod rhaglenni'n gallu newid ar fyr rybudd, sy'n gallu arwain at anawsterau wrth geisio rheoli mwy nag un ar yr un pryd. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr ACLI a'r Arolygiaeth Gynllunio yn mynnu bod y Swyddog Rhaglen ar gael drwy gydol cyfnod disgwylidig yr archwiliad, ac yn enwedig hyd at ac yn ystod y broses gwrandawriadau. Pan fydd un Swyddog Rhaglen yn ymwneud â dau archwiliad neu fwy sy'n digwydd ar yr un pryd, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ceisio sicrwydd gan yr ACLI y gellir darparu digon o adnoddau ar gyfer yr archwiliad, o bosibl trwy benodi dirprwy Swyddog Rhaglen enwebedig.
- 3.7. Pan fydd y Gwrandawriadau wedi gorffen, dylai'r Swyddog Rhaglen barhau yn ei swydd ar sail ran-amser hyd nes y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno. Gall problemau godi os nad yw'r Swyddog Rhaglen yn ei swydd mwyach gan na fydd cyfrwng cyfathrebu uniongyrchol rhwng yr Arolygydd a'r ACLI neu'r rhai a gyflwynodd sylwadau.

- 3.8. Yn union ar ôl ei benodi, anfonir cytundeb cyfrinachedd at y Swyddog Rhaglen. Bydd y cytundeb hwn yn datgan y bydd y Swyddog Rhaglen yn cael gwybod cyfeiriad a rhifau ffôn yr Arolygydd ac na fydd yn eu datgelu i unrhyw un cyn, yn ystod nac ar ôl yr archwiliad.

#### **4. Rôl y Swyddog Rhaglen**

- 4.1. Dylai Swyddog Rhaglen fod:

- Yn gallu trefnu a chadw cofnodion yn dda ac yn drylwyr;
- Yn gallu ymdrin yn dda â'r rhai hynny sy'n ymwneud â'r archwiliad;
- Yn gallu meddwl yn eglur a dysgu'n gyflym;
- Yn ddigyffro, yn gynnil ac yn gallu siarad yn gwrtais ond yn gadarn;
- Yn gallu gweithio heb lawer o oruchwyliaeth gan yr Arolygydd; ac
- Yn gallu defnyddio TG yn fedrus.

- 4.2. Bydd yn ofynnol i'r Swyddog Rhaglen:

- Sefydlu systemau ffeilio priodol
- Sefydlu a chynnal Llyfrgell yr Archwiliad
- Rheoli a thrin cronfa ddata'r archwiliad
- Cysylltu â'r rhai hynny sy'n cyflwyno sylwadau ynglŷn â'r CDLI
- Cynorthwyo'r Arolygydd i baratoi rhaglen yr archwiliad
- Trefnu'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad/Gwrandawriadau a rheoli lleoliadau ar y diwrnod
- Derbyn a chofnodi dogfennau'r archwiliad.

- 4.3. Mae'r Swyddog Rhaglen hefyd yn debygol o ymdrin â materion gweinyddol fel sefydlu swyddfa'r Arolygydd, neilltuo lleoliadau Gwrandawriad, paratoi a chlirio ystafelloedd, a rheoli trefniadau parcio a diogelwch ar gyfer cyfranogwyr. Mewn rhai achosion, bydd yr ACLI yn trefnu'r materion hyn, ond bydd angen i'r Swyddog Rhaglen gysylltu'n agos â'r ACLI ynglŷn â hwy bob amser. Yn gynnar yn y broses, mae'n hollbwysig bod y Swyddog Rhaglen yn sefydlu perthynas â thîm yr ACLI ac yn deall pwy fydd yn gyfrifol am wneud beth.

#### **5. Trefniadau swyddfa ar gyfer y Swyddog Rhaglen a'r Arolygydd**

- 5.1. I ddechrau, mae'n bosibl y bydd cyfle i'r Swyddog Rhaglen weithio o gartref, yn dibynnu ar a yw'r ACLI a'r Arolygydd yn fodlon ar drefniant o'r fath. Bydd yn bwysig ystyried a fydd y Swyddog Rhaglen yn gallu cyrchu a thrin Llyfrgell, gwefan a chronfa ddata'r archwiliad. Dylid cydbwyso manteision gweithio gartref â'r anallu tebygol i gael gafael yn gyflym ar ffeiliau a dogfennau perthnasol a'r tîm polisi Cynllunio. Gallai cysylltiad wyneb yn wyneb fod yn fwy effeithiol na galwadau ffôn a negeseuon e-bost.

- 5.2. Mae swyddfa briodol yn hanfodol a dylai fod wedi'i threfnu ymhell cyn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad. Mae angen i'r swyddfa:

- Fod yn agos i leoliad y Gwrandawriad ac ar wahân o Adran Gynllunio'r ACLI. Dylai'r swyddfa gael ei neilltuo'n benodol i'r diben hwnnw a pheidio â bod yn gyfleuster a rennir â swyddogaethau eraill awdurdod lleol.
- Bod yn hygyrch i holl aelodau'r cyhoedd yn ystod oriau swyddfa arferol a chynnwys cadeiriau a desg ar gyfer ymwelwyr.
- Cynnwys yr adnoddau arferol megis desgiau, cadeiriau, cypyrddau ffeilio, deunydd ysgrifennu ac ati. Mae angen ffôn uniongyrchol, yn ogystal â ffôn ateb. Dylid

darparu peiriant llungopiö y gellir ei ddefnyddio i wneud copiâu i ymwelwyr hefyd (yr ACLI sydd i benderfynu p'un ai codi tâl am hyn).

- 5.3. Mae'n debygol y bydd archwiliadau'n cael eu gweinyddu'n electronig i raddau helaeth, os nad yn gyfan gwbl. Anogir y rhai sy'n cyflwyno sylwadau i wneud hynny ar-lein a dylai sylwadau a gyflwynir ar bapur gael eu sganio. Gall CDLlau gynhyrchu cannoedd ac weithiau miloedd o sylwadau: bydd rheoli gohebiaeth yn electronig yn arbed amser ac yn lleihau costau cymaint â phosibl. O ganlyniad, dylai'r offer TG allu ymdopi â ffeiliau mawr, a bod a chysylltiad â'r rhynggrwyd ac argraffwyr/llun-gopiwyr lliw o ansawdd uchel.
- 5.4. Gallai cyfeiriadau e-bost newid rhwng yr adeg y cyflwynwyd sylwadau cychwynnola'r adeg ar gyfer anfon agendâu ac ati. Mae camgymeriadau wrth gofnodi yn gyffredin hefyd. Mae profiad wedi dangos y gall fod yn ddefnyddiol anfon neges e-bost brawf i'r holl gyfeiriadau ar y gronfa ddata yn gofyn i bobl gadarnhau eu bod yn fodlon derbyn gohebiaeth trwy e-bost. Mae hyn yn helpu i sicrhau y defnyddir cyfeiriadau e-bost dilys a chyfredol yn unig. O ran y rhai nad ydynt yn ateb, dylid anfon papurau atynt trwy'r post i ddechrau a gofyn iddynt ddarparu eu cyfeiriad e-bost presennol.
- 5.5. Dylai llythyrau fod yn wahanol i benawdau llythyrau'r ACLI. Dylent gynnwys enw'r CDLI, ac enwau'r Arolygydd a'r Swyddog Rhaglen ond nid logo'r ACLI.
- 5.6. Mae'n bosibl mai ystafell ymneilltuo yn unig y bydd ei hangen ar yr Arolygydd ar gyfer y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, ond dylai swyddfa fod ar gael ar gyfer dechrau'r Gwrandawriadau. Dylai'r Swyddog Rhaglen drafod darparu swyddfa gyda'r Arolygydd. Dylai'r Swyddog Rhaglen sicrhau bod swyddfa'r Arolygydd yn cynnwys llinell ffôn benodol a chysylltiad band eang fel bod yr Arolygydd yn gallu cyrchu'r wefan a negeseuon e-bost rhwng sesiynau Gwrandawriad. Mae rhai ACLlau wedi rhoi gliniadur i'r Arolygydd ei ddefnyddio yn ystod yr archwiliad; dylai'r Swyddog Rhaglen drafod hyn gyda'r Arolygydd ar gam cynnar.

## 6. Llyfrgell yr Archwiliad a gwefan yr Archwiliad

- 6.1. Mae'n rhaid i Lyfrgell yr Archwiliad gynnwys yr holl ddogfennau a gyflwynwyd yn rhan o'r archwiliad, gan gynnwys y CDLI a'i sylfaen dystiolaeth a sylwadau. Dylai hefyd gynnwys gwybodaeth a dogfennau sy'n ymwneud â rhaglen yr archwiliad a Gwrandawriadau unigol, gan gynnwys datganiadau a sylwadau ysgrifenedig. **Mae'n rhaid i'r holl ddogfennau fod ar gael i'r cyhoedd.**
- 6.2. Dylai'r llyfrgell gael ei sefydlu cyn gynted â phosibl. Er mwyn sicrhau y gellir dod o hyd i eitemau'n hwylus, dylid ei rhannu'n is-rannau megis:
  - Dogfennau cyflwyno:
    - Y CDLI a gyflwynwyd a dogfennau a restrir o dan adran 22(2) Rheoliadau 2005
    - Y sylfaen dystiolaeth greiddiol (a rannwyd yn feysydd pwnc fel y bo'r angen)
    - Dogfennau polisi lleol, cenedlaethol a rhanbarthol
  - Dogfennau'r archwiliad (gan gynnwys Nodiadau Canllaw, agendâu a datganiadau ysgrifenedig)
- 6.3. Mae'n hanfodol bod y cyfranogwyr yn gallu cael mynediad at Lyfrgell yr Archwiliad trwy **wefan yr archwiliad** (sydd fel arfer yn rhan o wefan yr ACLI). Yn gynnar yn y broses, mae'n rhaid i'r ACLI ystyried y ffordd orau o sefydlu gwefan ar gyfer yr archwiliad sy'n rhwydd ei defnyddio ac y gellir ychwanegu dogfennau ati wrth i'r archwiliad fynd

rhagddo. Mae archwiliadau CDLI yn golygu cyflwyno llawer iawn o wybodaeth a dogfennau mawr, sy'n aml yn cynnwys cynlluniau ac atodiadau technegol: o ganlyniad, dylai'r wefan fod yn ddigon mawr i allu ymdopi â hyn. Dylai'r wefan hefyd gynnwys dolenni i ganllawiau gan yr Arolygiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru a rheoliadau perthnasol, a dylai gynnwys cyfleuster chwilio. Pan fydd yr archwiliad wedi dechrau, mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i'r wefan gael eu hawdurdodi gan y Swyddog Rhaglen.

- 6.4. Er ei bod yn well gan lawer o bobl gyrchu'r llyfrgell yn electronig, mae'n rhaid i gyfranogwyr allu cael mynediad at y llyfrgell yn lleoliad y gwrandawriad neu'n agos ato. Mae rhai ACLlau yn darparu mynediad ar-lein yn eu swyddfeydd a gellid darparu gwasanaeth tebyg mewn man arall, er enghraifft mewn llyfrgell gyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen cadw copïau caled, nid lleiaf oherwydd y gallai fod yn fuddiol i Arolygwyr ddefnyddio copïau llyfrgell mewn Gwrandawiadau er mwyn osgoi cludo blychau o ddogfennau.
- 6.5. Pan fydd angen cyfieithu dogfennau, mae'n bwysig bod y Swyddog Rhaglen yn sicrhau bod yr ACLI yn gallu trefnu bod dogfennau'n cael eu cyfieithu'n gyflym.

## 7. Y gronfa ddata sylwadau

- 7.1. Yr ACLI sy'n gyfrifol am sefydlu **cronfa ddata** i gofnodi'r holl sylwadau yn ymwneud â'r archwiliad (mae taenlen Excel yn ddigonol fel arfer). Dylai sylwadau gael eu dadansoddi'n ofalus gan aelodau profiadol o'r tîm cynllunio, ac nid y Swyddog Rhaglen, gan y gallai unrhyw ddadansoddiad annigonol neu anghyson arwain at gamddealltwriaeth a chamgymeriadau, gan felly achosi i waith gael ei derfynu'n rhy gynnar yn ddiweddarach. Dim ond sylwadau a wnaed yn briodol y dylid eu hanfon at yr Arolygydd. Yr ACLI, ac nid yr Arolygydd, sydd i benderfynu pa sylwadau a wnaed yn briodol.
- 7.2. Dylai ACLlau strwythuro eu cronfa ddata ar gyfer sylwadau fel y gellir eu rhestru mewn amrywiaeth o ffyrdd. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Arolygydd i bennu'r ffordd fwyaf effeithiol o gynnal yr archwiliad. Dylai'r gronfa ddata a ddefnyddir fod yn gallu cael ei thrin i ddarparu'r wybodaeth ganlynol, wedi'i didoli yn nhrefn yr wyddor neu yn nhrefn rifiadol, polisi, paragraff neu gyfeirnod safle:
- Sylwadau sy'n ceisio newidiadau i'r Call
  - Sylwadau sy'n cefnogi'r CDLI
  - A yw'r cynrychiolwr yn dymuno cael ei glywed, boed yn Gymraeg neu Saesneg
  - Enwau a chyfeiriadau'r rhai a gyflwynodd sylwadau
  - Enwau a chyfeiriadau asiantau
- 7.3. Byddai'r canlynol yn ddefnyddiol ar gyfer postgyfuno hefyd:
- Labeli gyda chyfeiriadau'r rhai a gyflwynodd sylwadau ac asiantau
  - Labeli gyda manylion pob sylw
- 7.4. Mae amrywiaeth o systemau rhifo ar gael ar gyfer sylwadau, ond dylid ceisio sefydlu system mor syml â phosibl.
- Cyfeirnod personol: Dylid defnyddio hwn i adnabod yr unigolyn/unigolion sy'n cyflwyno'r sylw a gellir dechrau rhifo ar 0001, gan roi cyfeirnod unigol i bob unigolyn, grŵp neu sefydliad.

- Cyfeirnod sylw: Defnyddir hwn i adnabod pob sylw, a dylai ddechrau ar rif sylweddol uwch na'r cyfeirnod olaf ar gyfer cyfeirnodau personol. Mae'n ddefnyddiol adio cyfanswm nifer y cyfeirnodau personol i ddechrau a'u rhifo 0001-0999 (neu'n uwch os oes angen) ac yna dechrau rhifo'r cyfeirnodau sylw ar rif sylweddol uwch, er enghraifft 5000.
- Dyrannu paragraff / polisi / safle: Mae'r rhagddodiad hwn yn hanfodol ar gyfer yr holl bartïon, yn enwedig Arolygwyr.
- Mae'n ddefnyddiol gwahaniaethu rhwng sylwadau sy'n gwrthwynebu'r CDLI ac yn cefnogi'r CDLI.

7.5. Dylai'r ACLI roi'r offer angenrheidiol i'r Swyddog Rhaglen er mwyn iddo allu cael mynediad at y gronfa ddata a'i diweddar. Dylid sicrhau bod yr Arolygydd yn gallu cael mynediad ati hefyd er mwyn iddo allu llunio rhaglen ar gyfer y sesiynau gwrandawiad. Bydd Arolygwyr yn gallu cael mynediad at Excel yn unig, a bydd angen gwneud trefniadau i alluogi'r Arolygydd i gael mynediad at y gronfa ddata os defnyddir rhaglen wahanol.

## **8. Iaith a chyfieithu**

- 8.1. Caiff archwiliadau eu gweinyddu gan ACLLau yn hytrach na'r Arolygiaeth Gynllunio; o ganlyniad, dylai Swyddogion Rhaglen gael eu harwain gan Bolisi Iaith Gymraeg yr ACLI wrth gyfathrebu gyda chynrychiolwyr a threfnu gwrandawiaid. Mae'n bosibl y bydd Cynllun Iaith Gymraeg yr Arolygiaeth Gynllunio, sy'n cynnwys arweiniad ar drefnu gwrandawiaid ar apelïadau, hefyd yn ddefnyddiol cyfeirio ato. Mae hyn ar gael drwy wefan Llywodraeth Cymru.
- 8.2. Mae'n bwysig sicrhau y caiff Cymraeg a Saesneg eu trin yn gyfartal wrth gyfathrebu â chyfranogwyr yr archwiliad. Felly, dylid darparu cyfathrebiadau ysgrifenedig yn y ddwy iaith neu yn newis iaith y cyfranogwr (os yw'n hysbys). Mewn gwrandawiaid, dylai cyfleusterau cyfieithu fod ar gael oni bai ei fod yn glir bod yr holl gyfranogwyr yn dymuno cyfathrebu yn yr un iaith.

## **9. Y Cyfarfod Cyn Gwrandawiad**

- 9.1. Os yw un yn ofynnol, bydd yr Arolygydd yn ceisio cynnal y Cyfarfod Cyn Gwrandawiad rhwng 8 a 12 wythnos ar ôl i'r CDLI gael ei gyflwyno, ond bydd hyn yn dibynnu ar nifer y sylwadau a dderbyniwyd, cymhlethdod y Cynllun ac a dderbyniwyd yr holl ddogfennau cyflwyno gofynnol gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Bydd angen i'r Swyddog Rhaglen:
- Neilltuo'r lleoliad (rhoddir manylion ynglŷn â lleoliad addas isod). Bydd angen gwirio mynediad, arwyddion, diogelwch a chyfleusterau gorffwys. Bydd angen gwneud trefniadau parcio ar gyfer yr Arolygydd (os oes angen).
  - Egluro a chadarnhau presenoldeb tua 2 wythnos cyn y Cyfarfod Cyn Gwrandawiad. Mae profiad hyd yma yn dangos bod llawer o bobl yn gallu bod yn bresennol yn y Cyfarfod hwn. Mae'n bwysig gwirio'r niferoedd er mwyn trefnu ystafell fwy o faint os oes angen.
  - Bydd angen rhoi gwybod i'r holl rai a gyflwynodd sylwadau am ddyddiad, amser ac agenda'r Cyfarfod Cyn Gwrandawiad.
  - Dosbarthu'r nodiadau canllaw a baratowyd gan yr Arolygydd a'r rhaglen ddrafft (os caiff ei chynhyrchu cyn y Cyfarfod Cyn Gwrandawiad) cyn y cyfarfod. Bydd angen i'r ACLI roi cyhoeddusrwydd i'r sesiynau Gwrandawiad 6 wythnos cyn iddynt ddechrau).
  - Dylid rhoi map sy'n dangos y lleoliad ar y wefan.



- Os oes angen system sain, cyfleusterau cyfieithu neu ddolen glyw, dylid gwneud yn siwr eu bod ar gael, wedi'u gosod ac yn gweithio.
  - Darparu bariau enw. Ar gyfer y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, bydd angen darparu bariau enw ar gyfer swyddogion yr ACLI ac, o bosibl, swyddogion Llywodraeth Cymru yn unig fel arfer. Dylai fod gan yr Arolygydd a'r Swyddog Cynllunio eu platau enw eu hunain. Bydd enwau wedi'u hargraffu ar gerdyn caled yn addas i'r cyfranogwyr eraill.
- 9.2. Bydd nodiadau'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad yn cael eu cynhyrchu gan yr Arolygydd (fel arfer o fewn wythnos o'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad) a bydd angen eu hanfon at yr holl rai a gyflwynodd sylwadau neu eu hasiantau a'r cyfryngau (os ydynt yn bresennol yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad). Dylid rhoi copi ohonynt ar wefan yr archwiliad hefyd.
- 9.3. Canfu y bu'n ddefnyddiol cael cyfleuster mewn Gwrandawriadau i ddangos delweddau o gynlluniau a deunydd arall fel bod y cyfranogwyr yn gallu eu gweld. Dylid trafod y gofynion ar gyfer cyfleusterau TG yn ystod y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad a'r sesiynau Gwrandawriad gyda'r Arolygydd. Yr ACLI sy'n gyfrifol am ddarparu offer o'r fath (os oes ei angen) a dylid ei brofi cyn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad neu'r Gwrandawriadau.
- 9.4. Pan fydd archwiliad yn perthyn i ddiwygiadau i CDLI cyfredol, mae'n bosibl na fydd angen Cyfarfod Cyn Gwrandawriad. Bydd yr Arolygydd yn penderfynu a fydd angen Cyfarfod Cyn Gwrandawriad yn gymharol gynnar yn yr archwiliad. Os na fydd angen Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, dylech gysylltu â chyfranogwyr yr archwiliad pan fydd rhaglen y gwrandawriad wedi'i drafftio, gan ddarparu hysbysiad o ddyddiadau sesiynau'r gwrandawriad ac atodi Nodyn Arweiniad yr Arolygydd.

## **10. Lleoliad y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad / Gwrandawriadau**

- 10.1. Yr ACLI sy'n gyfrifol am ddarparu lleoliad ar gyfer y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad a'r Gwrandawriadau. Mae'n rhaid sicrhau bod digon o le i'r holl gyfranogwyr, y cyhoedd a'r wasg a, lle y bo'r angen, adnoddau gweinyddol ychwanegol. Ni fydd Siambr Gyngor ffurfiol yn addas fel arfer. Y lleoliad gorau fyddai ystafell sydd â digon o le ar gyfer bwrdd neu fyrddau mawr wedi'u gosod mewn ffurf U gyda digon o le i eistedd o'u hamgylch a'r tu ôl iddynt. Mae'n rhaid i'r lleoliad fod yn addas i bobl â phob math o anableddau ac, yn ddelfrydol, dylai fod modd ei gyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus. Dylid gwirio'r lleoliad cyn ei neilltuo ac mae'n debygol y bydd yr Arolygydd yn dymuno gweld y lleoliad os bydd yn cyfarfod â'r Swyddog Rhaglen yn gynnar yn ystod proses yr archwiliad.
- 10.2. Y trefniant mwyaf priodol ar gyfer ystafell y Gwrandawriadau fydd bwrdd petryalog gyda seddau ar gyfer hyd at 20 o bobl. Dylai pawb sy'n cymryd rhan yn y drafodaeth fod wrth y bwrdd ond, os nad yw hyn yn bosibl, gofynnir i unrhyw bartion a gynrychiolir gan dîm neu grŵp sy'n rhannu'r un safbwynt enwebu prif siaradwr. Dylai fod digon o le yn yr ystafell ar gyfer arsylwyr. Dylid ystyried cyfleusterau cyfieithu a/neu system sain/dolen glyw.

## **11. Y Gwrandawriadau**

- 11.1. Mae gwrandawriadau'n rhan bwysig o broses yr archwiliad. Bydd yr Arolygydd wedi cwblhau'r archwiliad desg o'r CDLI a bydd eisiau cael ei fodloni yn y sesiynau gwrandawriad ar y materion sy'n weddill y mae angen cael eglurhad arnynt er mwyn pennu cadernid.
- 11.2. Bydd y sesiynau Gwrandawriad yn anffurfiol, gyda'r Arolygydd yn archwilio ac arwain

trafodaeth ar y materion a nodwyd o flaen llaw. Bydd yr Arolygydd yn gwahodd y rhai sy'n dymuno cael eu clywed i gyfranogi, ynghyd ag unrhyw un arall y gallai fod ei angen i archwilio'r mater perthnasol yn briodol; ni ddylai'r grŵp fod yn fwy na 15 i 20 o bobl.

- 11.3. Ni ddylai fod angen cyflwyno tystiolaeth yn ffurfiol, a bydd croesholi ffurfiol yn cael ei ddefnyddio mewn achosion eithriadol yn unig. Os bydd unrhyw gyfranogwr yn dymuno bod yr Arolygydd yn ystyried ymdrin â phwnc penodol gan ddefnyddio'r dull ffurfiol hwn, mae'n rhaid iddo fod yn barod i gyflwyno achos cryf. Mae'n rhaid i'r partion roi gwybod i'r Arolygydd cyn gynted â phosibl os ydynt yn credu bod angen defnyddio dull ffurfiol. Dylid cyflwyno cyfiawnhad manwl gyda'r cais hwn. Yr Arolygydd fydd yn gwneud y penderfyniad olaf. Lle y penderfynir bod angen defnyddio dull ffurfiol, rhoddir gwybod i'r cyfranogwyr cyn y sesiwn gwrandawriad y caniateir croesholi ar bwnc penodol.
- 11.4. Nid oes gan bartion sy'n gwneud ceisiadau hwyr i fynychu gwrandawiadau ac nad ydynt wedi cyflwyno sylwadau yn unol â'r amserlen statudol yr hawl i gael eu clywed, er y cânt ddod i arsylwi unrhyw sesiwn gwrandawriad gan fod y rhain yn cael eu cynnal yn gyhoeddus. Nid oes gan y rhai a gyflwynodd sylwadau yn cefnogi'r CDLI ar y cam cyflwyno yr hawl i ymddangos. Mae rhagor o fanylion am Wrandawiadau ar gael yn y Canllaw Gweithdrefnol.
- 11.5. Mae'n debygol y bydd safbwyntiau llawer o'r bobl a'r grwpiau sy'n gwneud sylwadau ar y CDLI yn cael eu trin trwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig. Rhoddir yr un pwys i sylwadau ysgrifenedig â'r rhai hynny a wneir ar lafar mewn gwrandawiadau, ac maent yn ddull effeithlon o ystyried sylwadau. Mae Arolygwyr yn brofiadol o ran gwneud penderfyniadau ar sail cyfnewid datganiadau ysgrifenedig. Lle y bo'r angen, gall yr Arolygydd geisio eglurhad ynghylch materion a godwyd mewn sylwadau ysgrifenedig trwy ysgrifennu at y partion a gwahodd sylwadau ychwanegol ar faterion penodol.
- 11.6. Mae'n bosibl na fydd archwiliad yn cynnwys Gwrandawiadau ac y bydd yr holl faterion yn cael eu trin trwy sylwadau ysgrifenedig. O ystyried maint a chymhlethdod CDLIau, mae hyn yn annhebygol oni bai bod yr archwiliad yn perthyn i ddiwygiadau cyfyngedig i gynllun cyfredol.

## **12. Paratoi rhaglen yr archwiliad**

- 12.1. Yr Arolygydd fydd yn penderfynu ar raglen yr archwiliad yn seiliedig ar y materion a'r pynciau y mae wedi'u hamlygu i'w trafod ymhellach. Yr Arolygydd unigol sydd i benderfynu ar ffurf rhaglen yr archwiliad. Fodd bynnag, dylai fod yn eglur a dylai fod modd ei diwygio'n rhwydd.
- 12.2. Dylai rhaglen yr archwiliad fod ar gael cyn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad a dylid ei dosbarthu ymhlith y rhai a fydd yn bresennol. Dylid ei rhoi ar wefan yr archwiliad a dylid rhoi copi o'r rhaglen gychwynnol i'r holl rai a gyflwynodd sylwadau ac asiantau sydd wedi mynegi dymuniad i ymddangos. Byddai'n ddefnyddiol ar yr adeg hon i ofyn i'r rhai a gyflwynodd sylwadau (y gallent fod wedi cyflwyno eu sylwadau sawl mis yn flaenorol) a ydynt eisiau bod yn bresennol o hyd. Nid oes angen rhoi gwybod i'r holl rai a gyflwynodd sylwadau am newidiadau i'r rhaglen, dim ond y rhai hynny y bydd unrhyw newid yn effeithio arnynt. Dylid pwysleisio y dylai'r rhai hynny sy'n dymuno bod yn bresennol naill ai i siarad neu arsylwi wirio'r rhaglen yn rheolaidd: o ganlyniad, mae'n bwysig sicrhau bod y fersiwn sydd ar y wefan bob amser yn gyfredol.
- 12.3. Bydd yr Arolygydd yn penderfynu ar y rhaglen ar gyfer y gwrandawiadau ac yn neilltuo

cyfranogwyr i'r sesiynau perthnasol. Mae'r rhai a gyflwynodd sylwadau sydd â diddordeb mewn pynciau, polisiau neu ardaloedd daearyddol tebyg yn debygol o gael eu gwahodd i'r un sesiwn.

- 12.4. Bydd Arolygwyr yn bwriadu cynnal gwrandawiadau am 3 diwrnod yr wythnos, ond bydd hyn yn dibynnu ar hyd yr archwiliad a chymhlethdod y pwnc. Gall archwiliadau fod yn heriol iawn a bydd angen amser ar ACLlau i baratoi deunydd ac ymatebion i faterion a godwyd mewn sesiynau cynharach. Mae'n debygol y bydd y rhaglen yn cynnwys egwyl. Disgwylir y bydd yr Arolygydd yn ystyried materion strategol yn gyntaf ac mae'n debygol y bydd egwyl yn dilyn unrhyw sesiynau strategaeth. O ran rhaglenni hir (mwy nag 8 niwrnod), mae'n debygol y bydd egwyliau eraill gan fod yr archwiliadau'n feichus iawn i ACLlau a bydd angen amser arnynt i baratoi deunydd ac ymatebion i faterion a godwyd mewn sesiynau cynharach.
- 12.5. Mae profiad wedi dangos bod angen cynnwys amser ychwanegol yn y broses os oes angen cyfieithu dogfennau.

### **13. Prosesu dogfennau**

- 13.1. Yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawiad, neu'n ddiweddarach os na fu'n bosibl dosbarthu'r holl agendâu erbyn y dyddiad hwnnw, bydd yr Arolygydd yn rhoi gwybod pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arno cyn y Gwrandawiadau. Bydd yr Arolygydd yn gosod terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r dogfennau hyn, a dim ond y cyflwyniadau hynny a wahoddwyd gan yr Arolygydd y dylid eu derbyn. Fel arfer, gosodir terfyn amser o 3 wythnos cyn i'r Gwrandawiadau ddechrau neu cyn dyddiad Gwrandawiad perthnasol mewn rhaglenni hir. Bydd yr Arolygydd yn gosod terfynau amser eglur ac ni fydd angen anfon negeseuon atgoffa unigol, ond gallai neges e-bost gyffredinol at yr holl gyfranogwyr fod yn ddefnyddiol.
- 13.2. Dylid cofnodi'r dyddiad y derbynnir dogfen. Ni ellir trin unrhyw ddogfen fel bod yn gyfrinachol. Os cyflwynir copïau caled o ddogfennau, bydd yr Arolygydd wedi datgan sawl copi sydd i'w gyflwyno. Os na ddarparwyd digon o gopïau, dylid gofyn i'r rhai a gyflwynodd sylwadau ddarparu'r nifer sy'n ofynnol. Bydd angen sganio copïau caled o ddogfennau. Mae'n rhaid i'r holl ddogfennau sydd i'w hystyried yn ystod yr archwiliad gael eu dosbarthu i'r cyfranogwyr perthnasol. Gellir gwneud hyn trwy anfon copïau neu roi gwybod iddynt y gellir cael gafael ar y dogfennau ar y wefan.
- 13.3. Mae rhai Arolygwyr yn fodlon derbyn dogfennau'n electronig, tra bydd yn well gan eraill gael copïau caled. Os yw Arolygydd yn defnyddio fersiwn electronig i baratoi, bydd angen darparu copi caled o ddogfennau o hyd er mwyn iddo gyfeirio atynt yn y Gwrandawiad perthnasol (gan gynnwys y sylwadau gwreiddiol). Dylid gosod copi caled yn Llyfrgell yr Archwiliad hefyd.
- 13.4. Mae'n hanfodol bod dogfennau a gyflwynir yn electronig (naill ai ar-lein, ar gof bach neu gryno ddisg) yn cael eu labelu'n eglur a bod yr Arolygydd yn gallu eu hadnabod heb orfod agor pob dogfen. Mae methiant i wneud hyn wedi golygu bod Arolygwyr yn gwastraffu amser yn chwilio am y ddogfen gywir. Gellir cyflwyno dogfennau mawr ar gryno ddisg. Mae'n bosibl y bydd angen i'r Arolygiaeth Gynllunio wirio cryno ddisgiau a theclynnau cof bach am firysau cyn i'r Arolygydd allu eu defnyddio. Yn yr un modd â dogfennau a gyflwynir trwy ddull electronig arall, mae'n debygol y bydd angen i'r Arolygydd gael copïau caled yn y Gwrandawiadau. Lle y cyflwynir cynlluniau a thablau mewn lliw, bydd angen copïau lliw.
- 13.5. Dylai ffeiliau gael eu sefydlu a'u cynnal ar gyfer gohebiaeth nad yw'n gysylltiedig â phartïon sy'n ymwneud â'r sesiynau gwrandawiad. Mae pob rhan o'r archwiliad yn

agored, ac mae'n rhaid i ohebiaeth rhwng y cyfranogwyr a'r Arolygydd gael ei gosod ar y wefan fel rhan o'r Llyfrgell.

#### **14. Paratodau olaf ar gyfer Gwrandawïadau'r archwiliad**

- 14.1. Mae'n bwysig sicrhau bod gan yr Arolygydd yr holl sylwadau a dderbyniwyd a'u bod wedi'u dosbarthu i'r partïon perthnasol. Dylai'r Swyddog Rhaglen wirio bod y rhai hynny sydd wedi dweud y byddant yn mynychu yn dal i fwriadu gwneud hynny; fe allai fod yn bosibl addasu'r rhaglen os yw nifer sylweddol o bobl yn newid eu meddwl ynglŷn â mynychu sesiwn benodol. Dylai ceisiadau hwyr i fynychu gael eu trosglwyddo i'r Arolygydd ar unwaith.
- 14.2. Rhoi i'r Arolygydd unrhyw ddogfennau llyfrgell sydd eu hangen arno ar gyfer y diwrnod. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r rhai a gyflwynodd sylwadau yn gofyn am gopiâu o ddogfennau hefyd.
- 14.3. Dylai'r cyfranogwyr sicrhau eu bod yn cyflwyno dogfennau a wahoddwyd gan yr Arolygydd o fewn y terfyn amser. Gallai cyflwyniadau hwyr gael eu dychwelyd. Dylid dweud wrth gyfranogwyr sy'n dymuno cyflwyno dogfennau yn y Gwrandawïad i roi gwybod i'r Arolygydd ar ddechrau'r sesiwn, a dylid rhybuddio'r Arolygydd bod cais o'r fath yn debygol o gael ei wneud.
- 14.4. Ar ddechrau pob Gwrandawïad, dylai'r Swyddog Rhaglen sicrhau bod y cyfranogwyr perthnasol yn eu lle wrth y bwrdd, bod y rhestr bresenoldeb yn cael ei chwblhau, bod agendâu ar gael a bod microffonau a chyfleusterau cyfieithu yn gweithio. Yn aml, mae'n ddefnyddiol i'r Swyddog Rhaglen aros yn ystod sesiynau'r Gwrandawïad er mwyn ymdrin â'r materion/ymholiadau sy'n codi, gan gynnwys llungopïo/cylchredeg unrhyw bapurau a gaiff eu cyflwyno ar y diwrnod (a'u derbyn gan yr Arolygydd) a datrys unrhyw broblemau technegol gyda'r ACLI. Lle y cynhelir nifer o sesiynau mewn diwrnod, dylid ceisio trefnu bod y broses o drosglwyddo'n cyd-fynd ag egwyl ar gyfer coffi, cinio neu de.

#### **15. Cau'r archwiliad / trosglwyddo**

- 15.1. Ar ddiwedd y sesiwn Gwrandawïad olaf, bydd yr Arolygydd yn cyhoeddi'r dyddiad y disgwylir darparu'r adroddiad i'r ACLI ar gyfer gwirio ffeithiau. Bydd ar archwiliad yn aros ar agor hyd nes y cyflwynir yr adroddiad terfynol i'r ACLI. Bydd hyn yn galluogi'r Arolygydd i geisio eglurhad ar unrhyw faterion a allai fod wedi codi yn dilyn y sesiynau gwrandawïad, ac mae'n bwysig bod y Swyddog Rhaglen yn aros yn ei swydd (er nad yn amser llawn o reidrwydd) hyd nes yr anfonir adroddiad terfynol yr Arolygydd i'r ACLI. Mae angen i'r llyfrgell fod ar gael hyd nes y bydd yr archwiliad yn cau.
- 15.2. Os yw'r Arolygydd yn dod ar draws materion y mae angen eu codi ar ôl i'r Gwrandawïadau gau, bydd fel arfer yn ceisio eglurhad ysgrifenedig trwy'r Swyddog Rhaglen ond, os yw'n fater sylfaenol, mae'n bosibl y bydd angen cynnal sesiwn Gwrandawïad arall. Byddai hyn yn destun yr un ystyriaethau â'r prif flocc o sesiynau gwrandawïad (er hynny ar raddfa lai o lawer) a byddai angen rhoi cyhoeddusrwydd iddi 6 wythnos o flaen llaw i gydymffurfio â'r rheoliadau.
- 15.3. Dylai'r Swyddog Rhaglen drafod gyda'r ACLI sut y mae'n dymuno bod y gronfa ddata ac ati yn cael ei throsglwyddo.

#### **16. Cychwyn arni**

- 16.1. Gallai'r broses ymddangos yn frawychus y tro cyntaf, ond os ydych chi'n dal i fod yn darllen, gobeithio fod hynny'n golygu nad ydych wedi cael eich digalonni. Bydd rhannu'r tasgau cyntaf yn gamau yn helpu, a bydd eu cael yn iawn yn rhoi sylfaen gref.
- 16.2. Cyn gynted â'ch bod yn cael eich penodi, sefydlwch gysylltiad â thimau Cynllunio a TG yr ACLI a thrafodwch:
- Leoliadau'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad a'r Gwrandawriad; a ydynt yn addas ac a oes unrhyw ddyddiadau pryd na fyddent ar gael?
  - Eich swyddfa chi a swyddfa'r Arolygydd
  - TG a chyfathrebu; cofiwch y bydd angen cyfrif e-bost mawr arnoch a bod angen i'r wefan allu ymdopi â llawer iawn o wybodaeth – mae'n well trefnu hynny'n gynnar yn hytrach na cheisio ehangu yn ystod yr archwiliad.
  - Cyn gynted ag y bydd y wefan yn cael ei sefydlu, gwnewch yn siwr ei bod yn datgan eich bod chi wedi'ch penodi a'i bod yn cynnwys eich manylion cyswllt.
- 16.3. Os cewch eich penodi'n gynnar yn y broses, a chyhyd ag y bo'r ACLI yn cytuno, efallai y bydd yn bosibl i chi arsylwi archwiliad mewn man arall. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gallu dweud wrthyh a oes archwiliad y gallech ei fynychu.
- 16.4. Bydd pob archwiliad yn wahanol ac mae gan Arolygwyr wahanol ffyrdd o weithio. Bydd yr Arolygydd yn cysylltu â chi'n fuan ar ôl iddo gael ei benodi a bydd yn falch o roi cyngor ac arweiniad lle y bo'r angen.

## Atodiad: Llythyrau enghreiffiol

### 1. Llythyr yn hysbysu am Gyfarfod Cyn Gwrandawriad

Annwyl

**Cyfeirnod y Sawl a Gyflwynodd Sylw:**

**Enw'r Sawl a Gyflwynodd Sylw:**

### Hysbysiad ynghylch Cyfarfod Cyn Gwrandawriad – (amser a dyddiad)

Mae fy nghofnodion yn dangos eich bod chi neu eich sefydliad wedi cyflwyno sylwadau ar Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) (rhowch yr enw) (NEU: diwygiadau arfaethedig i Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) (rhowch yr enw). Mae'r CDLI bellach yn destun archwiliad annibynnol a hoffwn achub ar y cyfle hwn i'm cyflwyno fy hun fel y Swyddog Rhaglen syn gyfrifol am gynorthwyo'r Arolygydd gyda'r archwiliad.

Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi penodi (enw a chymwysterau'r Arolygydd) o'r Arolygiaeth Gynllunio i gynnal yr archwiliad. Bydd yr archwiliad yn cynnwys cyfres o Wrandawiadau a fydd yn dechrau ar (dyddiad).

Cyn hynny, cynhelir **Cyfarfod Cyn Gwrandawriad** ar (amser a dyddiad) i esbonio'r drefn ar gyfer y Gwrandawiadau. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn (Lleoliad) yn (cyfeiriad y lleoliad). Diben y cyfarfod yw helpu'r Arolygydd a phawb sydd â diddordeb i baratoi ar gyfer y Gwrandawiadau. Bydd yr Arolygydd yn amlinellu'r gweithdrefnau i'w dilyn yn ystod yr archwiliad, yn enwedig o ran y sesiynau Gwrandawriad. Mae'n bwysig bod pawb sy'n bwriadu ymwneud â'r sesiynau Gwrandawriad yn dod i'r cyfarfod hwn.

Er mwyn cynorthwyo â'r trefniadau ymarferol, a fydddech cystal â rhoi gwybod i mi a hoffech ddod i'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad **trwy gwblhau a dychwelyd y slip ateb amgaeedig naill ai:**

#### 1. Trwy ei anfon ataf drwy'r post yn y cyfeiriad ar y slip

#### 2. Trwy ei anfon ataf mewn neges e-bost at

**(D.S. Mae'n rhaid derbyn atebion erbyn (dyddiad).** Gellir gofyn am fersiynau electronig o'r slip ateb trwy neges e-bost)

(Os yw'n hysbys:) Yn flaenorol, rydych chi wedi nodi, wrth gyflwyno eich sylw, eich bod yn dymuno cyfranogi mewn Gwrandawiadau yn **(Gymraeg/Saesneg)**. Os yw hyn yn anghywir, rhowch wybod i mi cyn gynted â phosibl. *(Mae nifer o awdurdodau'n gweithredu polisi dwyieithrwydd sy'n golygu y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael ym mhob cyfarfod cyhoeddus – dylai'r paragraff hwn gael ei ddiwygio os oes angen i adlewyrchu polisi lleol).*

Rhowch wybod i mi a oes gennych chi unrhyw ofynion o ran mynediad neu ofynion eraill penodol.

Mae (enw'r Arolygydd) wrthi ar hyn o bryd yn ystyried y prif faterion a phynciau a'r ffordd orau o gynnal y sesiynau Gwrandawriad. Rwyf i'n ei gynorthwyo/ei chynorthwyo i raglennu'r rhain. Mae'n debygol y bydd y sesiynau Gwrandawriad yn cael eu cynnal dros tua (rhif) diwrnod yn ystod (rhif) wythnos yn dechrau ar (dyddiad). Bydd y Gwrandawiadau'n ymdrin ag ystod o bynciau a amlygwyd gan yr Arolygydd ac yn canolbwyntio ar gadernid cyffredinol y Cynllun, gan ystyried y profion cadernid (fel y'u amlinellir yn y Canllaw Gweithdrefnol ar Archwiliadau o Gynlluniau Datblygu Lleol) a'r materion a godwyd yn y sylwadau a gyflwynwyd.

Mae'r Arolygydd wedi gofyn i mi dynnu eich sylw at y ffaith fod **yr un pwys yn cael ei roi i sylwadau a gyflwynir yn ysgrifenedig â'r rhai hynny a wneir ar lafar yn unrhyw un o'r sesiynau Gwrandawriad**. I'r perwyl hwn, os ydych chi wedi newid eich meddwl o ran bod yn bresennol yn y sesiwn Gwrandawriad neu wedi penderfynu tynnu eich sylw yn ôl, nodwch hynny ar y slip ateb.

Edrychwch ar wefan yr archwiliad yn rheolaidd (cyfeiriad y wefan) i gael y wybodaeth ddiweddaraf er mwyn sicrhau eich bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau perthnasol i'r rhaglen. Ceir dolen yno

hefyd i fap a chyfarwyddiadau ynglŷn â sut i gyrraedd (lleoliad y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad).

Bydd rhestr Llyfrgell yr Archwiliad, Nodiadau Arweiniad yr Arolygydd ar gyfer y sesiynau Gwrandawriad a'r Agenda ar gyfer y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad ar gael yn fuan ar wefan yr Awdurdod. Os hoffech dderbyn copi caled o'r Nodiadau Canllaw a'r Agenda, rhowch wybod i mi.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

**Swyddog Rhaglen**

## **2. Llythyr yn cadarnhau'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad**

Annwyl Syr/Madam,

**Cyfeirnod y Sawl a Gyflwynodd Sylw:**

**Enw'r Sawl a Gyflwynodd Sylw:**

**Cyfarfod Cyn Gwrandawriad – (amser a dyddiad)**

**Dogfennau wedi'u Hamgáu**

**Agenda ar gyfer y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad**

**Rhaglen Ddrafft o Sesiynau Gwrandawriad ac Agendâu (os ydynt ar gael)**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig (dyddiad), amgaeaf y dogfennau uchod ar gyfer y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad ar (amser a dyddiad) yn (lleoliad).

Yn gywir

**Swyddog Rhaglen**

## **3. Llythyr i gyd-fynd â nodiadau'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad**

Annwyl Syr / Madam,

**Nodiadau'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad a gynhaliwyd ar (amser a dyddiad)**

**Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol (enw)**

Amgaeir Nodiadau'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad a gynhaliwyd ar (dyddiad), mewn perthynas â'r Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol (enw).

Mae Agenda'r Arolygydd gyda Materion a Phynciau ar gyfer y Sesiynau Gwrandawriad ynghyd â rhestrau o'r rhai hynny a wahoddwyd i gymryd rhan ar gael ar wefan y Cyngor (cyfeiriad y wefan). (Os nad ydynt ar gael, dywedwch pryd y gellir eu disgwyl)

Bydd y rhain hefyd yn cael eu dosbarthu i'r cyfranogwyr perthnasol, ond os hoffai unrhyw un arall dderbyn copïau ohonynt, cysylltwch â mi.

Yn gywir

**Swyddog Rhaglen**

#### **4. Llythyr yn cadarnhau cychwyn archwiliad pan na fydd Cyfarfod Cyn Gwrandawriad yn cael ei gynnal**

Annwyl Syr/Madam,

##### **Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol (enw) – Nodyn Arweiniad a hysbysiad o'r Gwrandawiadau**

Mae fy nghofnodion yn dangos eich bod chi neu eich sefydliad wedi cyflwyno sylwadau ar Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) (Rhowch yr enw) (NEU: diwygiadau arfaethedig i Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) (Rhowch yr enw). Bellach, mae hyn yn destun archwiliad annibynnol a hoffwn gymryd y cyfle hwn i gyflwyno fy hun fel y Swyddog Rhaglen sy'n gyfrifol am gynorthwyo'r Arolygydd gyda'r archwiliad.

Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi penodi (Enw a chymwysterau'r Arolygydd) o'r Arolygiaeth Gynllunio i gynnal yr archwiliad. Bydd yr archwiliad yn cynnwys cyfres o Wrandawiadau, a fydd yn cychwyn ar (Dyddiad) yn (Cyfeiriad y Lleoliad). Bydd y Gwrandawiadau yn ymwneud ag ystod o faterion a nodir gan yr Arolygydd, gan ystyried y profion cadernid (a restrir yn y Canllaw Gweithdrefnol ar Archwiliadau o Gynlluniau Datblygu Lleol) a'r materion a godwyd yn y sylwadau.

Mae'r Arolygydd wedi paratoi Nodyn Arweiniad i gynorthwyo cyfranogwyr yn yr archwiliad. Mae'n bwysig bod pob cyfranogwr yn ymgyfarwyddo â'r nodyn hwn.

Mae'r Arolygydd wedi gofyn i mi dynnu eich sylw at y ffaith bod sylwadau a wneir yn ysgrifenedig o'r un pwys â'r rhai a ddilynir gan ymddangosiad personol yn unrhyw un o'r sesiynau Gwrandawriad. Yn hyn o beth, os ydych bellach wedi newid eich bwriad i ymddangos yn bersonol neu os ydych chi wedi penderfynu tynnu eich sylw yn ôl, nodwch hynny ar y slip ymateb.

Er mwyn cynorthwyo â gwneud y trefniadau ymarferol, rhowch wybod i mi os ydych chi'n dymuno bod yn bresennol yn y Gwrandawiadau drwy lenwi a dychwelyd y slip ymateb amgaeedig a amgeir naill ai :

1. Drwy'r post i mi at y cyfeiriad ar y slip
2. Drwy ei anfon ataf drwy neges e-bost ar [cyfeiriad e-bost] (Gallwch ofyn am fersiynau electronig o'r slip ymateb drwy neges e-bost)

##### **Sylwer: Mae'n rhaid derbyn ymatebion erbyn (Dyddiad).**

Yn flaenorol, rydych chi wedi nodi wrth gyflwyno eich sylw, eich bod yn dymuno cyfranogi mewn Gwrandawiadau yn [Gymraeg/Saesneg]. Os yw hyn yn anghywir, rhowch wybod i mi cyn gynted â phosibl. *(Mae nifer o awdurdodau'n gweithredu polisi dwyieithog, y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael ym mhob cyfarfod cyhoeddus – dylai'r paragraff hwn gael ei ddiwygio os oes angen i adlewyrchu'r polisi Lleol.)*

Rhowch wybod i mi os oes gennych unrhyw ofynion penodol o ran mynediad neu ofynion eraill.

Gwiriwch y Wefan Archwilio (cyfeiriad y wefan) yn rheolaidd er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen archwilio. Mae'r wefan yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n perthyn i'r archwiliad, gan gynnwys yr holl agendâu ar gyfer Gwrandawiadau, Llyfrgell yr Archwiliad, Nodyn Arweiniad yr Arolygydd, a gwybodaeth am sut i fynd i (Lleoliad).

Yn gywir

**Swyddog Rhaglen**